**GWEITHREDU SY'N DEILLIO O GYFARFODYDD BLAENOROL** **EDC-04-00(p2W)**

(Mae'r pwyntiau'n cael eu rhifo er mwyn gallu cyfeirio atynt yn hawdd yn ystod y cyfarfod)

| Pwynt gGweithredu | Manylion diweddaraf | Wedi'i gwblhau? |
|---|---|---|
| **17 Tachwedd**<br>1. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Pwyllgor Monitro i gyflwyno model o sut y gallai arweiniad gan lywodraeth leol weithio yn ymarferol (**Eitem 3 Gweithredu)**<br><br>**GWEITHREDU: CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU A'R PWYLLGOR MONITRO** | Disgwyl i'r pwyllgor monitro gael ei sefydlu | |
| 2. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ddarparu papur ar lefelau hanesyddol, presennol a disgwyliedig yr arian cyfatebol ar draws llinellau'r gyllideb datblygu economaidd a chyllidebau eraill y Cynulliad (**Eitem 5 Ystyried Cyllideb y Cynulliad)**<br><br>**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | Mae'r gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd | |
| **1 Rhagfyr**<br>3. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i weld a ellir ymestyn y cynllun gofal plant ar gyfer pobl sy'n cychwyn busnes i gynnwys pobl anabl<br><br>4.Allan Moss i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor os bydd ardaloedd Amcan 1 eraill yn cefnogi'r cynllun lleddfu Yswiriant Gwladol **(Eitem 6 Cymorth gweithredu)**<br><br>**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | Mae angen clirio cynlluniau a rhaglenni cymorth gweithredu sy'n cynnwys rheolau cymorth y wladwriaeth, gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, dan y fframweithiau addas. Mewn sawl achos, byddant yn dibynnu ar fodolaeth map o'r Ardaloedd Cymorthedig, sydd wedi'i ohirio.<br><br>Yn y cyfamser, mae'r gweithgor Cymorth Gweithredu yn parhau i ddatblygu syniadau newydd. Mae'r rhain yn cynnwys: rhannu swyddi; cymorth i bobl anabl sy'n cychwyn busnesau a chynorthwyo'r broses o ddatblygu nwyddau newydd yn y diwydiannau creu. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith ar y syniadau hyn cyn eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor. Bwriedir darparu papur ar gyfer y PDE ym mis Ebrill (comisiynwyd y papur hwn). Bydd yn cynnwys cyfeiriad at dreth gorfforaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| **15 Rhagfyr** | | |
| 5. Y Cadeirydd a'r Clerc i ystyried trefnu sesiwn friffio anffurfiol gan y swyddogion ar gyfer yr aelodau ar broses y gyllideb | I'w drefnu ar gyfer dechrau tymor yr haf er mwyn paratoi ar gyfer y rownd gyllideb nesaf | |
| **GWEITHREDU: CADEIRYDD A'R CLERC** | - | **Do** |
| 6. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried cynnwys cyfeiriad at gymorth grant ar gyfer lleoedd bwyta yn y canllawiau strategol a ddosberthir i'r Bwrdd Croeso. | Y Pwyllgor i drafod yr hyn sydd i'w gynnwys yn llythyr canllawiau strategol y Bwrdd Croeso yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth. | |
| **GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | | |
| 7. Y Clerc i lunio amserlen fanwl ar gyfer yr adolygiad **(Eitem 7 Arolwg Cymorth Busnes)** | I'w lunio ar y cyd â'r ymgynghorydd arbenigol | |
| **GWEITHREDU: Y CLERC A'R AELODAU** | | |
| **20 Ionawr 2000** | | |
| 8. Rhestr o brosiectau a etifeddodd Cyngor Sir Caerdydd oddi wrth CDBC i'w darparu ynghyd â'r costau | | |
| 9. Rhagor o wybodaeth i'w darparu i aelodau ynglþn â'r swm a roddwyd i Gyngor Sir Caerdydd er mwyn rheoli asedion nad ydynt yn ymwneud â datblygu ynghyd â'r ymrwymiadau a'r rhwymedigaethau posibl na ellir eu rhagweld | | |
| 10. Copi o'r Memorandwm o Ddealltwriaeth i'w osod yn Llyfrgell y Cynulliad | Bydd pwyntiau 8-11 yn cael eu cynnwys yn EDC-04-00 (p.1W) Datblygu Bae Caerdydd yn y Dyfodol | |
| 11. Papur i'w ddarparu sy'n dangos bod y drefn brynu gywir wedi'i dilyn er mwyn clustnodi Thames Water | | **Do** |
| 12. Swyddogion y Cynulliad i sicrhau bod cytundebau rhwng CDBC a Chyngor Sir Caerdydd yn cael eu harwyddo cyn gynted ag y bo modd **(Eitem 2 CDBC)** | | |
| **GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | | |
| **26 Ionawr** | | |

| | | |
|---|---|---|
| 13. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ddarparu papur sy'n disgrifio'r fenter sy'n bodoli eisoes yn fanwl a swyddogaethau HR y Cynghorau Hyfforddi a Menter a'u cyllidebau cysylltiedig; yr union amserlen sy'n gysylltiedig â delio â'r fenter a'r pwnc HR; ac unrhyw feysydd ble mae amser yn bwysig **(Eitem 4 ETAG)** | Bydd y papur yn cael ei ddosbarthu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Mawrth (EDC-04-00(p.6W) | **Do** |
| **GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | | |
| 14. Yr aelodau i gysylltu â'r Clerc gydag unrhyw gynigion am ymgynghorwyr ychwanegol ar gyfer y mater yn ymwneud â swyddogaethau menter. | | |
| **GWEITHREDU: AELODAU. CADEIRYDD, YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | Ymarfer ymgynghori’n cael ei weithredu | **Do** |
| 15. Y Clerc i ymgynghori â'r aelodau i bennu dyddiadau ar gyfer yr adolygiad hwn **(Eitem 5 Adolygiad Cefnogi a Datblygu Busnes)** | Mewn llaw | |
| **GWEITHREDU: YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | | |
| 16. Cynhyrchu canllaw mwy technegol ynglþn â sicrhau arian Amcan 1 sy'n cynnwys geirfa o dermau technegol (croesgyfeiriwch at ganllaw Glannau Merswy) | Mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd | |
| 17. Yn ystod eu cyfarfod cyntaf, dylai'r pwyllgor monitro wrth gefn drafod sut i gyflawni gwell cydbwysedd rhwng y ddau ryw | Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar 7 Mawrth | |
| 18. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i adrodd yn ôl ynglþn â chanlyniad y trafodaethau ynglþn ag Amcan 3 | Rhoddir diweddariad i’r Pwyllgor ar 15 neu 29 Mawrth pan fydd mwy o wybodaeth ar gael | |
| 19. Paratoi papur ynglþn â'r pedair menter Gymunedol.<br><br>**(Eitem 6 Gweithredu Amcan 1)** | Papur i'w ddarparu ar 1 Mawrth (EDC-04-00) (p.13W) | **Do** |
| **GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | | |

| | | |
|---|---|---|
| 20. Mae angen cynnal ymchwil bellach ynglþn â'r fenter i ddarganfod beth fyddai'n gwneud i'r di-waith hir dymor ymuno â'r farchnad lafur unwaith eto **(Eitem 7 Targedau).** Yr Ysgrifennydd Cynulliad i ddarganfod a gynhaliodd Coleg y Brifysgol Bangor yr ymchwil hon ai peidio (9 Chwefror Eitem 2) | Trafodir rhai carfanau penodol o'r boblogaeth gan astudiaeth Bangor (e.e. menywod). Y bwriad bellach yw ystyried sut orau i ddatblygu'r mater hwn. | |
| **GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | | |
| 21. Papur i ddangos sut gellir defnyddio arian Ffordd i Ffyniant erbyn y cyfarfod nesaf | Y papur i'w ddarparu ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 1 Mawrth (EDC-04-00(p.12W) | **Do** |
| 22. Y Pwyllgor i ystyried y posibilrwydd ar gyfer ad-drefnu'r gwahanol benawdau cyllideb sy'n bodoli yn y gyllideb adfywio trefol **(Eitem 8 Cyllideb)** | I'w ddal yn ôl nes cadarnhau pwy'n union sy'n gyfrifol am y llinellau gwariant perthnasol. | |
| **GWEITHREDU: YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | | |
| **9 Chwefror 2000** | | |
| 23. Ychwanegu enwau Helen Mary Jones a Brian Hancock at y rhestr o aelodau sydd ar goll o'r rhai a fynychodd gyfarfod 26 Ionawr | Nodwyd | **Do** |
| 24. Newid pwynt bwled 3 ym mharagraff 3.1, tudalen 2 i "Carlsberg Tetley, Wrecsam – collwyd swyddi yn sgîl cau **depo'r** bragdy" **(Eitem 2 Cofnodion cyfarfod 26 Ionawr)** | Nodwyd | **Do** |
| 25. Estyn gwahoddiad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol fynychu sesiwn ar y cyd er mwyn trafod "Datblygu Bae Caerdydd yn y dyfodol" **(Eitem 2 Gweithredu'n codi)** | | |
| **GWEITHREDU: YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | Aelodau i fynychu rhan gyntaf y cyfarfod ar 1 Mawrth | **Do** |

26. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i drefnu bod nifer fawr o daflenni hysbysebu Amcan 1 ar gael i aelodau'r Cynulliad, yn y Llyfrgell o bosibl **(Eitem 2 Gweithredu'n codi)**

Taflenni ar gael yn y Llyfrgell

**Do**

**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD**

27. Papur i esbonio'r rheolau ynglþn â hyblygrwydd ar ddiwedd y flwyddyn

Papur i'w ddarparu erbyn cyfarfod 15 Mawrth

28. Papur i egluro'r modd y caiff yr arian sydd i'w drosglwyddo o gyllideb y WDA ar gyfer cefnogi'r fasnach ryngwladol ei drin (h.y. a gaiff ei drin ar wahân neu fel rhan o gyllideb MISS)

Papur i'w ddarparu erbyn cyfarfod 15 Mawrth

Y pwnc i'w drafod mewn papur a gyflwynir yng nghyfarfod 15 Mawrth

29.Papur i egluro ein safbwynt ar ddarpariaeth Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop

30. Papur i gadarnhau bod Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo wedi cael ei phennu ar sail pro rata i Gymru (o wybod faint o byllau glo a glowyr sydd yng Nghymru) ac i esbonio pam na lwyddwyd i gadw at y gyllideb

Papur i'w gyflwyno yng nghyfarfod 15 Mawrth

31. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i anfon nodyn at sefydliadau perthnasol (gan gynnwys asiantaethau menter a siambrau masnach) yn nodi'r sefyllfa ynglþn â cheisiadau am grantiau RSA

I'w ddosbarthu'n fuan

32. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i hysbysu'r Pwyllgor o ddatblygiadau pellach o safbwynt map yr AA.

33. Yr Ysgrifennydd Cynulliad i hysbysu'r Pwyllgor o ddatblygiadau pellach o safbwynt sefyllfa Bank One **(Eitem 3 yn adroddiad yr Ysgrifennydd Cynulliad)**

Yr Ysgrifennydd Cynulliad i hysbysu'r Pwyllgor o'r datblygiadau diweddaraf yn ei adroddiad llafar

Yr Ysgrifennydd Cynulliad i hysbysu'r Pwyllgor o'r datblygiadau diweddaraf yn ei adroddiad llafar

**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** **Do**

**Do**

**Do**

| | | |
|---|---|---|
| 34. Hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd o'r cynnig ynglþn â defnyddio cymorth technegol i helpu gyda phartneriaethau hwyluso | Hysbyswyd y Comisiwn o'r cynnig ar 25 Chwefror. I'w drafod ymhellach yng nghyd-destun SPD<br><br>Ystyrir swyddogaethau Monitro Ychwanegol yng nghyfarfod y Pwyllgor Monitro wrth gefn ar 7 Mawrth | **Do** |
| 35. Dylid ymestyn rôl y pwyllgor monitro i gynnwys monitro'r targedau a gyrhaeddir ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol(paragraff 2 EDC-03-00 (p. 4W))<br><br>**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | | |
| 36. Yr Ysgrifennydd Cynulliad a'r Cadeirydd i drafod cynlluniau i gynnal seminar ragarweiniol gyda chynrychiolwyr y pwyllgorau monitro amrywiol. Bydd dyddiad y seminar honno'n dibynnu ar gynnydd gydag Amcan 2 a 3 a'r Cynllun Datblygu Cefn Gwlad ac ati<br><br>**GWEITHREDU:YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD, Y CADEIRYDD AC YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR** | Yr eitem hon yn cael ei chadw dan sylw. Ni ddaethpwyd i benderfyniad ynglþn â Phwyllgorau Amcan 2 a 3 hyd yn hyn | |
| 37. Mike German i baratoi papur ar fecanweithiau gwerthuso ar gyfer Amcan 1 i'w gyflwyno i'r Cadeirydd **(Eitem 4 Gweithredu)**<br><br>**GWEITHREDU: MIKE GERMAN AC** | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Y papur yn cael ei baratoi | |
| 38. Y Cadeirydd i wahodd aelodau o’r Pwyllgor Amaeth a Datblygu Cefn Gwlad i gyfarfod o’r Pwyllgor Datblygu Economaidd (a gynhelir ar ddyddiad sy’n amodol ar yr agendâu) i drafod dod â Chynlluniau Strwythurol Datblygu Cefn Gwlad ac SPD Amcan 2 a 3 ynghyd o dan y Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol.<br><br>**GWEITHREDU: CADEIRYDD A’R CLERC** | Llythyr i’w ddrafftio | |
| 39. Ystyried safbwyntiau’r Pwyllgor ynglþn â chynnwys cynaladwyedd fel prif thema’r Cynllun pan gaiff y Cynllun ei adolygu **(Eitem 5: Cynllun Datblygu Cefn Gwlad)**<br><br>**GWEITHREDU: YR YSGRIFENNYDD CYNULLIAD** | | |
| 40. Y Cadeirydd i ymgynghori â llefarwyr y pleidiau ynglþn â chynigion ar gyfer y flaen-raglen waith strategol **(eitem 6: Blaen-raglen Waith)**<br><br>**GWEITHREDU: CADEIRYDD** | Trefnwyd cyfarfod â llefarwyr y pleidiau ar gyfer 29 Chwefror | **Do** |